

Cofnodion Cyfarfod Cyngor Cymuned Llanfihangel Ystrad a gynhaliwyd ar Nos Fawrth, 16eg Mawrth, 2021 am 7.30pm dros ZOOM

PRESENNOL

Cynghorwyr : Glyn Davies (Cadeirydd) Lynford Thomas, Harry Williams, Daniel Evans, Lyn Williams, Alan Henson, Haf Hughes, Owen Llywelyn, Hywel Ifans.

1. YMDDIHEURIADAU

Y Cynghorwyr Gerwyn Owen, Johnny Davies.

2. PERSONOL – Dim i'w nodi

3. DATGELU BUDDION PERSONOL - Dim i'w datgelu

4. COFNODION

Cadarnhawyd cofnodion 10fed Tachwedd 2020. Cynigiwyd gan y Cyng. Lynford Thomas ac eiliwyd gan Y Cyng. Lyn Williams.

5.. MATERION YN CODI

10. Ni chafwyd unrhyw ymateb gan Adran y Priffyrdd i'r materion a nodwyd.

6. ADRODDIAD Y CYNGHORYDD SIR

Cafwyd adroddiad gan Y Cyng. Lynford Thomas am ei waith ers mis Tachwedd gan dynnu sylw at y ffaith bod gwaith y Cyngor yn mynd yn ei flaen yn rhithiol a bod cyfarfodydd cyson yn digwydd. Nododd hefyd llwyddiant y system brechu yng Ngheredigion. O ddiddordeb pendol i'r ardal, cadarnhaodd y bod cytundeb ar safle'r ysgol newydd bron wedi ei gwblhau. Codwyd cwestiyn gan Y Cyng. Hywel Ifans ynglŷn â phenderfyniad y Cyngor Sir i godi'r treth o 3.5% ac esboniodd Y Cyng. Thomas mai Ceredigion oedd wedi derbyn y swm lleia o'r cyllid craidd gan y Llwydraeth oedd yn golygu bod angen i'r Cyngor Sir wneud penderfyniadau anodd er mwyn cau'r diffyg yn y gyllideb.

Ni fydd y Cyngor Sir yn cwrdd eto nes ar ôl y etholiadau'r Senedd ym mis Mai.

7. CYLLID

7.i Taliadau ers y cyfarfod diwethaf:

- a) Cyflog y Clerc mis Tachwedd - Chwefror 2021 - 195.50 x 4
- b) ICO £40
- c) Archwilydd Cymru (Archwiliad Allanol) - £438.25 (Ar gais y Clerc derbyniwyd llythyr gan swyddfa'r Archwilydd yn esbonio'r costau uwch na'r swm a nodwyd yn y gyllideb ddrafft – ynghlwm wrth yr anfoneb)

7.ii Taliadau mis Mawrth 2021

- a) Tâl y Clerc mis Mawrth £195.50
- b) Costau Clerc £42.22
- c) Tony Bretland £611.80
- d) Les Verdin £100.29 +4%

c) a d) yn cynnwys 2% x dwy flynedd yn sgil y ffaith na chafodd 2% ei dalu yn 2019-2020)

- e) Ad-daliad I Eleri Lewis : Cofrestru ar gyfer cyfarfodydd ZOOM £143.88
- f) Neuadd Felinfach £10 (Un cyfarfod ym mis Chwefror 2020)
- g) Antur Teifi – gweinyddu'r Payroll £72.00

7.iii Praespet. Anfonwyd ffurflen Praesept yn hawlio'r swm o £9950.00 ar gyfer 2021-2022 yn unol a chofnod 6.ii Cofnodion mis Awst 2020.

7.iv. Archwiliad Allanol

Yn sgil y wybodaeth am y newid yn nhrefn yr Archwiliad Allanol cafwyd yr amserlen ar gyfer y Cyngor isod

2020-21 Sylfaenol 2021-22 Sylfaenol 2022-23 Llawn

- a. Derbyniwyd adroddiad yr Archwilydd Allanol gan gofnodi'r canlynol: *Ar sail ein hadolygiad, yn ein barn ni mae'r wybodaeth yn y Ffurflen Flynyddol cydymffurfio ag arferion priodol ac nid oes unrhyw faterion wedi dod i n sylw sy n peri pryder nad yw'r ddeddfwriaeth a r gofynion rheoleiddio perthnasol wedi eu bodloni.*

Derbyniwyd yn unfrydol

7.v Lwfans Blynyddol Cynghorwyr

Cwblhawyd y ffurflen uchod yn datgan 'nil return' ar 25/11/2020

7vi. Deddf Llywodraeth Leol 1972 Gwariant Adran 137. Cafwyd gwybodaeth mai £8.41 am bob etholwr yw'r swm priodol ar gyfer 2021-22.

7vii Cyllideb Drafft 2021-22 - dosbarthwyd er gwybodaeth

7viii. Gweddill yn y Banc 04/02/21 – dosbarthwyd taflen a thrafodwyd yr anfonebau oedd heb eu cyflwyno eto

8. GOHEBIAETH

- i. Derbyniwyd llythyr gan Welsh Hearts yn son bod grantiau o £250 ar gael ar gyfer gosod diffriblwir. Yn dilyn trafodaeth, penderfynwyd gwneud ymholiadau gyda'r bwriad o osod un yn Temple Bar. Bydd y Clerc yn gwneud ymholiadau.
- ii. **Ceisiadau Ariannol: I'w Penderfynu ym mis Mehefin**
 - a. Beiciau Gwaed Cymru,
 - b. Eisteddfod Genedlaethol Urdd Gobaith Cymru 2021
 - c. Radio Bronglais
 - d. *Ambiwlans Awyr
 - e. Cerebal Palsy Cymru (Bopath gynt)
 - f. *Cruse Ceredigion (Gofal Mewn Galar)
 - g. Neuadd Felinfach –
 - h. *Marie Curie Apel Daffodil
 - i. Macmillan yng Ngheredigion
 - j. Cae Chwarae Cribyn –
 - k. Ysgol Dihewyd

*Wedi derbyn rhodd ym mis Medi 2020

9. CYNLLUNIO

Cadarnhaywd bod y ceisiadau cynllunio isod wedi eu hystyried er mis Tachwedd a phawb wedi cael cyfle i ymateb:

- a. **A200950** Garej Cribyn
- b. **A201011** Pant Y Gronw, Temple Bar Cwblhawyd ffurflen Datgan Diddordeb gan Y Cyng. Owen Llywelyn
- c. **A201010** Ffynnonoer Uchaf, Felinfach
- d. **A201073** Felindre Uchaf, Abermeurig
- e. **A210136** - Blaenpant, Dihewyd, Cwblhawyd ffurflen Datgan Diddordeb gan Y Cyng. Haf Hughes

10. GWEITHGAREDDAU CYNGHORWYR

- I. **Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Y Cyng. Lynford Thomas).**
Gweminar yn gosod allan y Strategaeth Datblygu Cynllunio newydd a fydd yn dod i rym ym mis Ebrill 2021. Mae'r strategaeth yn nodi pwysigrwydd ystyried barn y Cyngorau Bro a Chyngorau Lleol mewn penderfyniadau cynllunio sydd yn rhywbeth i'w groesawu. Serch hyn, codwyd pryder gan Y Cyng. Lynford Thomas yn sgil y ffaith y bydd penderfyniadau yn parhau i gael eu gwneud trwy ddilyn rheolau Polisi Cynllunio Cymru a bydd angen newid yn y polisi hwn cyn y bydd y Strategaeth newydd yn gweithio i gefen gwlad.
- II. **Gweminar Ail Gartrefi (Y Cyng. Hywel Ifans).** Gweminar gan Dr.Simon Brookes yn son yr adroddiad a baratowyd ganddo ar ran Academi Hywel Teifi er mwyn craffu ar y bolisi cyhoeddus ar ail gartrefi yng Nghymru a Chernyw. Wrth nodi bod 1,735 o ail-gartrefi yng Ngheredigion (y 4ydd uchaf yng Nghymru, un agwedd yn ei adroddiad oedd ar yr ymchwil sy'n dangos sut oedd y polisi cynllunio yn cael effaith ar iechyd meddwl. Mae hwn yn gysail sydd wedi ei brofi felly mae'n agwedd ar gynllunio y gellid ystyried yma yng Nghymru wrth gymryd yr iaith i ystyriaeth yn ogystal. I weld yr adroddiad yn llawn ewch i <https://llyw.cymru/ail-gartrefi-datblygu-polisiau-newydd>

11. UNRHYW FATER ARALL

- i. Nododd Y Cyng. Lyn Williams bod angen codi sbwriel ar hyd fflats Maesmynach. Nododd Y Cyng. Hywel Ifans y broblem gyda sbwriel yn cael ei adael ar ochor yr hewl yn Dihewyd er mwyn i lorïau'r Cyngor ei gasglu. Yn dilyn trafodaeth, **penderfynwyd** y byddai'r Clerc yn cysylltu ag Adran yr Amgylchedd i nodi'r ddau gŵyn ac i holi am ei bolisi sbwriel.
- ii. Nododd Y Cyng. Alan Henson fod problem tirlithriadau ar yr hewl wrth Glanafon, Cribyn. **Penderfynwyd** cysylltu ag Adran y Proffyrdd.
- iii. Cronfa'r Cadeirydd. **Penderfynwyd** yn unfrydol trosglwyddo £150 i'r Gronfa
- iv. Nododd y Clerc bod Owen Miles a'i gwmni yn mynd i ddechrau ar y gwaith o ail-wneud safle bws Cribyn w'thnos hon,

12. DYDDIAD A LLEOLIAD Y CYFARFOD NESAF

Nos Fawrth, 13eg Ebrill, 2021 dros ZOOM

